Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar

## Gyngor Sir y Fflint
## Neuadd y Sir
## Yr Wyddgrug
## Sir y Fflint
## CH7 6NB

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chyngor Sir y Fflint

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi'i leoli yng Ngogledd Cymru a chyfanswm ei boblogaeth yw 155,155. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal 78 o ysgolion. Ceir 64 o ysgolion cynradd, gan gynnwys pump sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg. Ceir 11 o ysgolion uwchradd, gan gynnwys un ysgol cyfrwng Cymraeg. Yn ychwanegol, mae dwy ysgol arbennig, ac uned portffolio cyfeirio disgyblion.

Dechreuodd y Prif Weithredwr yn ei swydd yn 2007, a phenodwyd y Prif Swyddog ar gyfer Addysg ac Ieuenctid, sy'n cyflawni rôl y Cyfarwyddwr Statudol ar gyfer Addysg, ym Mehefin 2018. Mae Arweinydd y Cyngor wedi bod yn ei rôl er mis Ebrill 2019 ac mae wedi ymgymryd â rôl arweiniol y cabinet ar gyfer gwasanaethau addysg er mis Mai 2017. Cynhaliwyd arolygiad diwethaf yr awdurdod lleol ym mis Hydref 2011.

Mae Sir y Fflint yn un o chwe awdurdod lleol yn rhanbarth Consortiwm GwE, sy'n darparu'r gwasanaethau gwella ysgolion ar gyfer yr awdurdod lleol.

Yn 2018-2019, cyllideb addysg net y Cyngor oedd tua £102 miliwn. Y gyllideb ysgol ddirprwyedig fesul disgybl yw £4,671 fesul disgybl, sef y nawfed isaf o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Y gyllideb ysgolion gyfartalog fesul disgybl yng Nghymru yw £4,776 fesul disgybl.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso deilliannau ac ansawdd y gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth leol. Mae rhywfaint o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc yn Sir y Fflint wedi'i nodi isod:

- Dros gyfartaledd tair blynedd, mae 14.6 % o ddisgyblion rhwng pump ac un deg pump oed yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 17.9%
- Mae 5.1% o ddisgyblion sy'n bump oed ac yn hŷn yn rhugl yn y Gymraeg, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 16.2%
- Mae 7.3% o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 11.0%
- Mae gan 20.0% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 22.6%
- Roedd 68 o blant o bob 10,000 yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn 2018, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 102 o blant i bob 10,000

## Crynodeb

At ei gilydd, mae disgyblion yn Sir y Fflint yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod mewn ysgolion. Yn 2018, roedd safonau yn y prif ddangosyddion ar draws yr awdurdod lleol yn debyg i'r rheiny mewn awdurdodau lleol eraill tebyg.

Nid yw presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn cymharu'n dda â phresenoldeb disgyblion ar gyfer awdurdodau lleol tebyg. Mae cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol ar gyfer disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn uwch na chyfartaledd Cymru. .

Mae'r drefn i asesu disgyblion y gallai fod angen addysg heblaw yn yr ysgol arnynt yn dda, ac mae darpariaeth briodol ar gael iddynt. Mae'r ddarpariaeth hon ar gael i ddisgyblion o'r cyfnod sylfaen i gyfnod allweddol 4.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn dda, ac mae'r cymorth sydd ar gael gan y gwasanaeth lleferydd ac iaith yn hynod effeithiol.

Mae trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer nodi ysgolion a lleoliadau nas cynhelir sy'n achosi pryder yn gweithio'n dda, ac yn y rhan fwyaf o achosion, yn arwain at gamau gweithredu effeithiol. Mae'r perthnasoedd gwaith rhwng yr awdurdod lleol a'i gonsortiwm rhanbarthol yn dda ac yn effeithiol. Mae'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol, sef GwE, wedi helpu'r rhan fwyaf o ysgolion i wella eu deilliannau yng nghyfnod allweddol 4 yn 2018. Er gwaethaf y gwelliannau hyn, nid oedd tua hanner yr ysgolion uwchradd yn perfformio cystal â'r disgwyl mewn llawer o ddangosyddion o hyd.

Mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer addysg yn Sir y Fflint, y maent yn ei mynegi'n glir yng nghynllunio strategol yr awdurdod lleol. Mae'r awdurdod yn gweithio'n dda mewn partneriaeth ar draws meysydd gwasanaethau, gydag ysgolion, a gyda darparwyr allanol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at wella cymorth ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed yn arbennig.

Mae prosesau rheoli perfformiad parhaus yr awdurdod yn effeithiol, ac yn darparu gwybodaeth dda a chyfoes ynglŷn â chynnydd yn unol â'i gynlluniau strategol a gwerthusiad cywir o brif ddangosyddion perfformiad. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod lleol yn monitro nac yn gwerthuso ychydig o'i wasanaethau addysg rheng flaen yn ddigon da i ddeall eu heffaith ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr.

Mae dyraniad adnoddau'r awdurdod lleol yn unol â'i wasanaethau addysg a'i ysgolion yn adlewyrchu'r flaenoriaeth uchel a roddir i addysg yn y cynllun corfforaethol. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol wedi caniatáu i nifer fach o ysgolion gario diffyg ariannol am gyfnod rhy hir.

## Argymhellion

A1 Gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4

A2 Lleihau nifer y gwaharddiadau a chynyddu presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd

A3 Gwella monitro a gwerthuso yr ychydig o wasanaethau addysg rheng flaen yn barhaus er mwyn darparu gwybodaeth fwy cywir am effaith gwaith yr awdurdod lleol

A4 Rheoli'r gostyngiad yn niffygion cyllidebau ysgolion yn fwy effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr arolygiad, dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion, ac ystyried y diffygion a nodwyd trwy'r broses arolygu. Dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau o fewn tri mis i gyhoeddi adroddiad yr arolygiad.

Rydym wedi gofyn i'r awdurdod lleol baratoi astudiaeth achos arfer effeithiol ar ei waith mewn perthynas ag ymyrraeth gynnar yn y gwasanaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu a'i effaith ar ddysgwyr y cyfnod sylfaen. Byddwn yn cyhoeddi'r astudiaeth achos ar ein gwefan.

## Prif ganfyddiadau

### Deilliannau

At ei gilydd, mae disgyblion yn Sir y Fflint yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod mewn addysg statudol. Yn gyffredinol, mae safonau mewn ysgolion cynradd yn gryfach na'r rheiny mewn ysgolion uwchradd.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae Estyn wedi arolygu 24 o ysgolion cynradd yn Sir y Fflint, ac wedi barnu bod llawer o'r rhain yn 'dda' ar gyfer safonau. Mae hyn yn debyg i gyfartaledd Cymru, er bod cyfran yr ysgolion cynradd y barnwyd eu bod yn rhagorol ar gyfer safonau ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru. Yn ystod y cyfnod hwn, nid yw Estyn wedi rhoi unrhyw ysgol gynradd mewn categori statudol yn dilyn arolygiad. Fodd bynnag, yn aml, caiff defnydd disgyblion o fedrau Cymraeg a TGCh, a'u datblygiad ynddynt, eu nodi fel meysydd i'w gwella mewn adroddiadau arolygiadau ysgolion cynradd.

Mae Estyn wedi arolygu pedair o'r un ar ddeg ysgol uwchradd dros y tair blynedd ddiwethaf. Barnwyd bod safonau cyffredinol yn dda mewn un ysgol, yn ddigonol mewn dwy ysgol, ac yn anfoddhaol yn yr ysgol arall. Mae safonau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 mewn ysgolion uwchradd, ar sail cymwysterau ffurfiol, dros y tair blynedd ddiwethaf, wedi amrywio. Yn 2018, mae safonau'n debyg i safonau mewn awdurdodau lleol tebyg, gan gynnwys perfformiad mewn dangosyddion sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg

Mae disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â'r un grŵp o ddisgyblion mewn awdurdodau lleol tebyg, ar y cyfan. Mae perfformiad disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn debyg i berfformiad eu cyfoedion yn genedlaethol, ac mae safonau yn yr ysgol arbennig a gynhelir yn dda. Mae perfformiad grwpiau eraill o ddisgyblion sy'n agored i niwed wedi gwella dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn benodol, mae canran y plant sy'n derbyn gofal sy'n ennill cymhwyster cydnabyddedig wedi cynyddu.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae cyfran y disgyblion sy'n gadael Blwyddyn 11 y gwyddom nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, wedi aros yn isel, ac ar ddiwedd 2017, mae'n cyd-fynd â chyfartaledd Cymru.

Mae deilliannau o adroddiadau arolygiadau Estyn ym mhob sector ysgol yn dangos bod lles y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Mae disgyblion sydd angen cymorth i wella eu hiechyd meddwl ac emosiynol yn elwa ar y strategaethau gwerthfawr y mae'r awdurdod lleol yn eu rhoi ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion a nodwyd gan gwnselwyr yn yr ysgol. Mae dadansoddiad yr awdurdod yn dangos bod disgyblion sydd wedi cymryd rhan mewn sesiynau cwnsela yn ystod y tair blynedd ddiwethaf wedi gwella eu lles emosiynol.

Caiff pobl ifanc gyfleoedd da hefyd i ddatblygu eu hunan-barch a'u medrau cymdeithasol trwy waith y Ddarpariaeth Integredig i Bobl Ifanc. Er enghraifft, mae grŵp o bobl ifanc wedi cymryd rhan mewn rhaglen hyfforddiant i ddatblygu eu medrau arwain trwy weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Glyndŵr. Yn dilyn yr hyfforddiant, mae'r arweinwyr ifanc hyn yn gweithio mewn canolfannau ieuenctid ac

mewn gwersylloedd preswyl yn darparu cymorth ar gyfer pobl ifanc eraill. Mae ychydig o arweinwyr ifanc yn defnyddio eu medrau newydd i weithio gyda'u cynghorau cymuned lleol i gynrychioli'r bobl ifanc yn eu hardaloedd lleol.

Nid yw presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn cymharu'n dda â lefelau mewn awdurdodau lleol tebyg. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn wannach yn ysgolion Sir y Fflint na phresenoldeb disgyblion tebyg ledled Cymru. Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, bu canran y disgyblion sy'n absennol yn barhaus uwchlaw cyfartaledd Cymru am y tair blynedd ddiwethaf.

Mae nifer y gwaharddiadau parhaol wedi cynyddu dros y tair blynedd ddiwethaf, ac mae'n uwch na chyfartaledd Cymru. Mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol mewn ysgolion cynradd wedi gostwng. Fodd bynnag, mewn ysgolion uwchradd, mae tuedd gynyddol yn nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu fwy wedi cynyddu dros y tair blynedd ddiwethaf, ond mae wedi gostwng ers yr arolygiad diwethaf.

Caiff pobl ifanc gyfleoedd gwerthfawr i gyfrannu at benderfyniadau am faterion sy'n effeithio arnynt, ac mae'r awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth dda i'w safbwyntiau. Mae aelodau o'r cynghorau ysgol uwchradd wedi cael eu cynnwys yn dda yng ngwaith yr awdurdod lleol ar y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion. Dadansoddodd disgyblion y wybodaeth a gasglwyd o arolygon am iechyd a lles disgyblion i nodi'r pryderon yn eu hysgolion a llunio cynlluniau gweithredu ysgol er mwyn mynd i'r afael â'r rhain. Yn dilyn y gwaith hwn, bu grwpiau o aelodau cynghorau ysgol o bob ysgol uwchradd yn gweithio gyda swyddogion yr awdurdod lleol i nodi materion cyffredin mewn ysgolion ar draws yr awdurdod. Bu swyddogion ymchwil o Brifysgol Caerdydd yn hyfforddi'r disgyblion hyn i'w helpu i ddeall a dehongli'r data o'r arolygon yn effeithiol. Mae'r gwaith pwrpasol hwn wedi arwain at ddatblygu cynllun gweithredu pwrpasol gan yr awdurdod lleol i wella iechyd a lles pobl ifanc yn Sir y Fflint.

## Gwasanaethau addysg

O dan Faes Arolygu 2, mae Estyn yn gosod cwestiynau arolygu lleol sy'n berthnasol i bob awdurdod lleol. Mae cwestiynau arolygu lleol yn canolbwyntio ar wasanaethau addysg sy'n ymwneud â blaenoriaethau strategol presennol yr awdurdod lleol, neu'n deillio o wybodaeth sydd gan Estyn am wasanaethau addysg yn yr awdurdod lleol.

### Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn gweithio gydag ysgolion i wella cyrhaeddiad ar draws cyfnod allweddol 4?

Mae'r awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol (GwE) yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gynorthwyo'r ysgolion hynny y mae angen iddynt wella'r deilliannau y mae disgyblion yn eu cyflawni erbyn diwedd cyfnod allweddol 4. Ceir perthynas waith gref rhwng swyddogion addysg yr awdurdod, ymgynghorwyr cefnogi gwelliant y consortiwm a'r ysgolion uwchradd, sy'n canolbwyntio ar welliant. Mae'r berthynas hon yn seiliedig ar barch, ymddiriedaeth a dealltwriaeth ar y ddwy ochr.

Mae'r awdurdod, trwy'r cydweithio hwn, yn nodi'n glir anghenion ysgolion uwchradd. Mae'r bartneriaeth hon yn darparu cymorth teilwredig sy'n cynnwys camau

gweithredu sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â diffygion yng nghyfnod allweddol 4, mewn llawer o achosion.  Mae ymgynghorwyr cefnogi gwelliant pynciau yn darparu cymorth buddiol ar gyfer pynciau craidd ac yn gweithio'n dda gyda phenaethiaid adran ac athrawon i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen i wella safonau. Mae hyn yn cynnwys cyfle da i elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol a hyfforddiant arweinyddiaeth.  Mae ymgynghorwyr cefnogi gwelliant pynciau yn darparu cymorth cryf ar gyfer dadansoddi data mewn ysgolion unigol, sy'n galluogi athrawon i wybod cryfderau disgyblion a meysydd lle mae angen iddynt wella.

Mae uwch swyddogion yr awdurdod lleol yn monitro perfformiad ysgolion uwchradd yn fanwl ac yn craffu ar ddata ar berfformiad yn drylwyr.  Maent wedi nodi meysydd penodol i'w gwella yn gywir yng nghyfnod allweddol 4, gan gynnwys cynyddu cyfran y disgyblion sy'n ennill pum gradd A*-A neu fwy, neu gyfwerth.  Trwy gyfarfodydd rheolaidd ag arweinwyr craidd o'r consortiwm rhanbarthol, maent yn ystyried cynnydd yn yr ysgolion yn ofalus, gan alluogi iddynt addasu cynlluniau a darparu cymorth lle bo angen mewn modd amserol.

At ei gilydd, mae gwasanaethau gwella ysgolion wedi helpu gwella deilliannau yn y rhan fwyaf o ysgolion yng nghyfnod allweddol 4, er nad yw tua hanner yr ysgolion uwchradd yn perfformio cystal â'r disgwyl mewn llawer o ddangosyddion.

**Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau cymorth priodol ar gyfer ysgolion a lleoliadau sy'n achosi pryder?**

Mae swyddogion ac aelodau etholedig yn Sir y Fflint yn adnabod eu hysgolion a'u lleoliadau'n dda, a gallant amlinellu'n glir y cryfderau cymharol a'r meysydd i'w gwella.  Maent yn cydnabod materion penodol sy'n wynebu ysgolion unigol sy'n achosi pryder, ac yn gweithredu mewn modd amserol i roi'r cymorth mwyaf priodol ar waith mewn cydweithrediad â GwE.  Pan fo'n briodol, mae swyddogion yr awdurdod lleol yn codi pryderon gyda'u swyddogion cyfatebol yn GwE, ac fe gaiff y materion hyn eu datrys yn gyflym, gan arwain at gymorth mwy effeithiol ar y cyfan.

Mae swyddogion yr awdurdod lleol ac ymgynghorwyr cefnogi gwelliant o GwE yn cydweithio i nodi blaenoriaethau penodol ar gyfer ysgolion sy'n achosi pryder gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth, ac maent yn cynllunio rhaglenni cymorth.  Er enghraifft, ar y cyd ag ymgynghorwyr cefnogi gwelliant pynciau, mae ymgynghorwyr cefnogi gwelliant yn darparu arweiniad buddiol, ac yn cyfeirio ysgolion ac arweinwyr at gyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.  Maent yn darparu adborth ynghylch cynnydd yn unol â'r blaenoriaethau hyn i'r awdurdod lleol yn rheolaidd.  O ganlyniad, bu gwelliannau ym mherfformiad yr ychydig ysgolion cynradd  a'r  nifer fach o ysgolion uwchradd y nodwyd eu bod yn destun pryder. Mae'r gwaith hwn hefyd wedi arwain at welliant cadarnhaol mewn safonau, er enghraifft yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys mathemateg.  Er 2017, ni nodwyd bod unrhyw leoliad nas cynhelir yn destun pryder.

Yn gyfochrog â chymorth GwE, mae'r awdurdod lleol yn gweithio gydag ysgolion unigol sy'n achosi pryder ar agweddau pwysig eraill, fel gwella presenoldeb ac ymddygiad, a lleihau diffygion yn y gyllideb.  Mewn ysgolion sy'n achosi pryder ac mewn ysgolion yn gyffredinol, bu cynnydd yn yr agweddau penodol hyn yn fwy cyfyngedig.  Hefyd, nid yw union natur y cymorth a ddarperir, a sut caiff y gwaith hwn ei fonitro a'i werthuso, bob amser yn glir.

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth reolaidd i gynnydd ysgolion sy'n achosi pryder ar ystod addas o fyrddau rheoli. Mae'r rhain yn galluogi cyfnewid tystiolaeth yn ddefnyddiol ynghylch ystod lawn y materion sy'n wynebu'r ysgolion a'r lleoliadau hyn. O ganlyniad, ar lefel strategol, gall aelodau etholedig a swyddogion ystyried gwelliannau trosfwaol yn gyffredinol, a gwneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â chynnydd yn yr ysgolion hyn. Mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio'i bwerau'n effeithiol mewn ychydig iawn o ysgolion lle bu cynnydd yn rhy araf.

Mae llawer o ysgolion sy'n achosi pryder wedi ymateb yn dda i'r cymorth a roddwyd, ac maent wedi gwneud cynnydd cadarn. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd, nid yw'r newidiadau wedi arwain at welliannau cynaledig dros gyfnod.

**Pa mor effeithiol yw gwaith yr awdurdod lleol i wella presenoldeb mewn ysgolion, a lleihau nifer y gwaharddiadau?**

Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu arweiniad buddiol ar gyfer ysgolion, sy'n cefnogi eu gwaith i wella presenoldeb a lleihau gwaharddiadau. Mae'r arweiniad yn helpu ysgolion i ddeall eu cyfrifoldebau fel partneriaid allweddol ar gyfer gwella presenoldeb, a phryd a sut bydd yr awdurdod lleol yn ymyrryd.

Mae'r swyddogion lles addysg yn ymgysylltu'n effeithiol â llawer o ysgolion uwchradd a'u hysgolion cynradd partner i'w cynorthwyo ag unrhyw faterion presenoldeb a phontio. Mae hyn hefyd yn galluogi swyddogion i ddod i adnabod a deall y teuluoedd sydd angen cymorth yn dda. Maent hefyd yn cyfeirio rhieni'n ddefnyddiol at ragor o gymorth buddiol gan sefydliadau eraill.

Mewn achosion pan fydd presenoldeb disgyblion yn wael iawn, bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn trefnu cyfarfodydd strategaeth gyda rhieni, staff ysgol a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill i ddatblygu ffyrdd cytûn i wella presenoldeb unigolion targedig. Mae'r camau gweithredu hyn yn llwyddiannus o ran gwneud gwelliannau cynyddol ym mhresenoldeb rhai o'r disgyblion hyn, er nad yw cyfradd gyffredinol yr absenoldebau parhaus mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gostwng dros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn gweithio'n dda mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, o ran cefnogi eu gwaith a chynnwys yr asiantaethau hyn mewn gweithgareddau i gefnogi presenoldeb. Er enghraifft, mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn cyfrannu'n dda at waith yr Hwb Cymorth Cynnar a'r tîm o amgylch yr ysgol i gynorthwyo disgyblion. Hefyd, mae staff o'r Gwasanaeth Integredig i Bobl Ifanc yn cyfrannu'n bwrpasol wrth ymgysylltu â dysgwyr unigol sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg.

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn defnyddio ystod eang o strategaethau i gefnogi gwelliannau mewn presenoldeb, ac mae'r awdurdod lleol yn defnyddio'i bwerau i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig ac erlyniadau i wella presenoldeb disgyblion unigol, lle bo'n briodol. O ganlyniad i'w ystod eang o strategaethau, mae'r Gwasanaeth Lles Addysg wedi cynorthwyo ysgolion yn llwyddiannus i gynnal lefelau isel o absenoldeb anawdurdodedig.

Ni chaiff data ei rannu'n ddigon effeithiol o fewn y gwasanaeth, ac o ganlyniad, nid yw swyddogion unigol a'r Gwasanaeth Lles Addysg yn meddu ar ddealltwriaeth

gyflawn o'r heriau sy'n eu hwynebu. Er y gall swyddogion lles addysg roi enghreifftiau o effaith eu hymyrraeth ar gyfradd presenoldeb disgyblion unigol, ni chaiff gwaith i gefnogi presenoldeb ei werthuso'n ddigon cryf. Nid yw'r swyddogion yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon manwl ynglŷn â pham nad yw presenoldeb cyffredinol ysgolion wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r awdurdod wedi nodi iddo'i hun fod angen gostwng cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol yn y Cynllun Busnes Portffolio Addysg ac Ieuenctid 2019/2020. Mae gan yr awdurdod brotocolau a gweithdrefnau clir ar waith i reoli gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol. Er enghraifft, mae protocol symudiadau rheoledig ar waith, sydd wedi'i gytuno ac yn cael ei ddeall yn dda gan benaethiaid. Er mis Ebrill 2019, mae'r awdurdod wedi newid ei ymagwedd fel bod cyllid yn trosglwyddo i'r ysgol newydd, gyda disgyblion yn cael eu cynnwys mewn symudiad rheoledig, gan fynd i'r afael â rhwystr lleol rhag rhoi symudiadau rheoledig ar waith yn llwyddiannus.

Mae uned cyfeirio disgyblion portffolio'r awdurdod (UCDP) a'r tîm cymorth ymddygiad yn darparu cymorth targedig ar gyfer ysgolion a'u staff ar gyfer delio â phroblemau ymddygiad disgyblion, trwy roi cyngor, cymorth allymestyn a hyfforddiant. Mae'r rhaglen ymyrraeth uwchradd, sef rhaglen 12 wythnos sy'n gweithio gyda dysgwyr unigol i feithrin eu gwydnwch a'u hyder, yn helpu disgyblion i ddatblygu strategaethau i reoli eu hymddygiad eu hunain pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol. Mae'r UCDP yn cynnal cysylltiadau â'r disgyblion hyn ar ôl iddynt ddychwelyd i'r ysgol.

**Pa mor dda y mae gwasanaethau'r awdurdod lleol yn sicrhau cymorth addas ar gyfer disgyblion sy'n Cael eu Haddysgu Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS)?**

Mae'r uwch reolwr ar gyfer cynhwysiant a dilyniant yn meddu ar wybodaeth ymarferol fanwl am wasanaeth EOTAS, a gweledigaeth glir i ddatblygu'r ddarpariaeth hon ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed. Mae gan arweinwyr weledigaeth ar y cyd ar gyfer darpariaeth addysg gynhwysol gefnogol lle caiff pob un o'r disgyblion eu gwerthfawrogi'n gyfartal. Mae staff o fewn yr awdurdod a'i ysgolion yn deall eu cyfrifoldeb am hyn yn dda, ac yn dangos ymrwymiad cryf i'r disgyblion y maent yn gweithio gyda nhw.

Mae prosesau hunanwerthuso o fewn EOTAS yn drylwyr, ac yn amlygu'n dda beth yw'r cryfderau a'r meysydd priodol i'w gwella. Er enghraifft, amlygodd uwch reolwyr fod angen penodi aelod ychwanegol o staff i fynd i'r afael ag angen o ran arweinyddiaeth strategol o fewn y tîm cynhwysiant.

Mae'r panel EOTAS yn cyfarfod yn rheolaidd i nodi dysgwyr a allai elwa ar gymorth arbenigol, i fonitro eu cynnydd a goruchwylio'r ddarpariaeth. Mae rheolwyr EOTAS yn monitro'n fanwl er mwyn gwneud yn siŵr bod disgyblion sy'n cael addysg yn y cartref a disgyblion sy'n cael eu haddysgu mewn lleoliadau arbenigol y tu allan i'r awdurdod lleol yn derbyn darpariaeth briodol.

Mae rheolwyr gwasanaeth EOTAS a swyddogion yn cydweithio'n dda ag ystod eang o bartneriaid, fel Coleg Cambria, i sicrhau ystod effeithiol o ddarpariaeth amgen ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ymgysylltu. Mae staff sy'n gweithio i'r partneriaid hyn yn addasu cyrsiau'n effeithiol i gynnal ymgysylltiad dysgwyr. Maent yn cynnig ystod werthfawr o ddarpariaeth amser llawn a rhan-amser i sicrhau bod dysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau.

Mae gan yr awdurdod lleol gysylltiadau cryf â cholegau addysg bellach lleol a darparwyr eraill.

Mae’r UCDP yn darparu ystod effeithiol o gymorth ar gyfer disgyblion ag amrywiaeth o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol o’r cyfnod sylfaen i gyfnod allweddol 4. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol yn ddigon hyblyg i gynorthwyo disgyblion sy’n siarad Cymraeg sy’n manteisio ar ystod y gwasanaethau. Mae datblygiadau o fewn yr UCDP, fel darpariaeth y cyfnod sylfaen yng Nghanolfan yr Enfys, wedi ehangu cynnig yr awdurdod lleol, ac wedi cynyddu ei allu i asesu disgyblion a nodi’r ddarpariaeth orau posibl ar gyfer y plentyn unigol yn gynnar. Mae swyddogion yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddisgyblion elwa ar y ddarpariaeth yn amser llawn, yn rhan-amser neu dros dro, yn unol â’u hanghenion ac at ddibenion asesu.

Mae gan yr awdurdod lleol weledigaeth glir ar gyfer datblygu’r UCDP, gan gynnwys buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol. Mae’r UCDP yn adnodd hyblyg sy’n ymgysylltu ag ysgolion i ddarparu hyfforddiant a chymorth allymestyn. Er enghraifft, mae arweinwyr a staff yn darparu rhaglenni cymorth gwerthfawr ar gyfer disgyblion ag anawsterau ymddygiadol mewn ysgolion prif ffrwd. Mae gweithdrefnau cadarn ar waith i sicrhau bod staff yn monitro cynnydd y disgyblion hyn yn fanwl.

Mae staff yr awdurdod lleol yn cysylltu’n agos â darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol i sicrhau bod disgyblion yn dychwelyd i’r ysgol pan fo’n briodol. Mae staff ar bob lefel o fewn yr awdurdod yn gweithio’n llwyddiannus i sicrhau bod dysgwyr yn parhau i ymgysylltu â’u dysgu. Adlewyrchir effaith y gwaith hwn yn niferoedd isel y disgyblion hyn sy’n mynd ymlaen i fod yn NACH (nid ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) pan fyddant yn 16 oed.

Mae staff yr awdurdod lleol yn darparu adnoddau defnyddiol i helpu rhieni i gynorthwyo’u plant â’u dysgu pan fyddant yn derbyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol.

**Pa mor effeithiol yw gwaith yr awdurdod lleol wrth nodi, darparu a monitro cymorth statudol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig?**

Mae’r awdurdod lleol wedi ymrwymo i gyflwyno darpariaeth o ansawdd da ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Ceir cysylltiad clir rhwng cyflwyno’r gwasanaeth a blaenoriaeth yr awdurdod lleol i wella ‘ymgysylltiad, lles a pherfformiad grwpiau sy’n agored i niwed’. Ceir adnoddau da ar gyfer y gwasanaeth anghenion addysgol arbennig, ac mae ei staff yn meddu ar arbenigedd a phrofiad sylweddol. Ceir ymdeimlad cryf o weithio fel tîm o fewn y gwasanaeth, ac ethos gwerthfawr o gynllunio a darpariaeth yn canolbwyntio ar y plentyn.

Mae’r awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol yn dda. Mae’n llwyddo i gwblhau asesiadau statudol o fewn y graddfeydd amser gofynnol. Nodwedd nodedig yw bod yr awdurdod yn darparu adnodd ariannol ychwanegol i ysgolion i gynorthwyo disgyblion unigol tra’n asesu ac yn casglu tystiolaeth. Mae’r ddarpariaeth o ran asesu a chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg yn briodol, ar y cyfan. Mae arweinwyr yn sicrhau bod rhieni’n cael eu hysbysu’n dda am ei wasanaethau trwy’r gwasanaeth Partneriaeth Rhieni, sydd ar gael i holl rieni’r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Mae’r awdurdod lleol hefyd yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am ei

wasanaethau cymorth trwy ei wefan, ac ychydig iawn o apeliadau yn unig a wnaed i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru dros gyfnod. Mae llawer o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol ac yn symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu waith.

Mae'r 'Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol' clir a chynhwysfawr yn cynnwys arweiniad buddiol i ysgolion ynglŷn â gofynion ymateb graddedig i nodi anghenion disgyblion a sicrhau cymorth. Mae prosesau cymedroli yn gyson, yn cael eu rheoli'n dda, ac yn dryloyw.

Mae rheolwyr gwasanaeth yn craffu ar ganlyniadau adolygiadau blynyddol yn ofalus, ac yn gwneud diwygiadau addas i'r ddarpariaeth. Mae uwch arweinwyr yn gwerthuso cynnydd disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ar ddiwedd y cyfnod sylfaen a chyfnodau allweddol eraill. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae defnydd arweinwyr o ddata a thystiolaeth uniongyrchol i werthuso perfformiad y gwasanaeth.

Ceir ystod eang a chynhwysfawr o hyfforddiant ar gyfer ysgolion a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar i'w helpu i gynorthwyo anghenion disgyblion unigol. Mae hyn yn cynnwys galluogi llawer o athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu i ennill cymwysterau buddiol wrth gyflwyno rhaglenni llythrennedd emosiynol ac ymyriadau cyfathrebu cymdeithasol, ac ymateb i broblemau ymlyniad. Mae arweinwyr yn ystyried tueddiadau neu anawsterau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer disgyblion ar draws yr awdurdod yn dda i ddarparu hyfforddiant a chymorth perthnasol ac amserol i staff ysgolion.

Nodwedd nodedig yng ngwaith yr awdurdod lleol yw ei waith cryf ymyrraeth gynnar o ran cynorthwyo lleferydd, iaith a chyfathrebu plant. Er enghraifft, mae'r Prosiect Datblygiad Iaith yn galluogi cymorth cyffredinol, effeithiol, targedig ac arbenigol ag adnoddau da ar gyfer disgyblion iau. Mae cynorthwywyr datblygiad iaith yr awdurdod yn mynychu ysgolion ac yn cydweithio ag athrawon i gynorthwyo unigolion neu grwpiau bach o ddisgyblion am gyfnodau penodol. Yn ychwanegol, mae'r gwasanaeth Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) a'r Gwasanaeth Iaith a Chyfathrebu yn cyflwyno hyfforddiant cynhwysfawr a gwerthfawr i athrawon am gaffael iaith yn gynnar ar gyfer disgyblion ag anawsterau iaith. Mae mentrau fel y rhain yn sicrhau cymorth cynnar ar gyfer disgyblion, ac mewn rhai achosion, yn atal yr angen am asesiad statudol.

Mae'r awdurdod lleol yn ymgymryd â rôl arweiniol mewn sawl prosiect ar draws yr awdurdod. Er enghraifft, mae rheolwyr yn cadeirio Grwpiau Trawsnewid ADY rhanbarthol, ac fe gaiff Gwasanaeth Synhwyraidd effeithiol Sir y Fflint ei gomisiynu bellach gan ddau awdurdod cyfagos.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer sicrhau darpariaeth effeithiol yn Sir y Fflint. Maent yn cyfleu'r weledigaeth hon yn dda ar draws yr awdurdod, ar draws yr adran, ac i randdeiliaid a phartneriaid. Mae arweinyddiaeth y Prif Swyddog dros addysg ac ieuenctid yn gynhwysol ac yn gynyddol effeithiol.

Mae cynllun corfforaethol yr awdurdod yn dangos yn dda yr ymrwymiad i wella addysgu, ac un o'i chwe nod yw bod yn 'gyngor dysgu' ag 'addysg lle ceir perfformiad uchel'. Adlewyrchir y flaenoriaeth hon yn dda ac fe'i datblygir ymhellach yng nghynllun busnes y Portffolio Addysg ac Ieuenctid. Mae'r cynllun busnes yn glir, ar y cyfan, ac yn amlinellu'r rhesymeg ar gyfer ei flaenoriaethau a chamau gweithredu ar gyfer gwasanaethau addysg yn dda, gan gynnwys darpariaeth addysg nad yw'n ffurfiol.

Defnyddir y cylch cynllunio busnes a monitro perfformiad corfforaethol yn dda ar gyfer monitro perfformiad ar lefel strategol yn barhaus trwy ddefnyddio adroddiadau chwarterol, adroddiadau bob hanner blwyddyn ac adroddiadau blynyddol. Mae'r adroddiadau hyn yn darparu cyfleoedd da i nodi effaith amcanion y cynllun busnes, cynnydd yn unol â chamau gweithredu, neu lithro, a risgiau sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn gwerthuso ychydig o'i wasanaethau rheng flaen yr un mor drylwyr, ac felly mae uwch arweinwyr yn ansicr ynghylch effaith lawn y gwasanaethau hyn. Hefyd, nid yw hi bob amser yn glir sut mae gwasanaethau rheng flaen yn bwriadu cyfrannu at gynnydd amcanion strategol.

Caiff prosesau hunanwerthuso blynyddol yr awdurdod lleol eu llywio'n dda trwy'r wybodaeth a gynhyrchir gan yr adroddiadau cynllunio busnes, a thrwy ymgynghori ag ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys ei ysgolion. O ganlyniad, mae prosesau hunanwerthuso'r awdurdod lleol yn darparu dealltwriaeth gywir a pharhaus, ar y cyfan, o berfformiad y portffolio.

Mae rheolwyr ac uwch arweinwyr yn defnyddio'r fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol ar gyfer staff yn effeithiol. Mae'r broses arfarnu flynyddol yn bwrpasol ac yn nodi anghenion dysgu proffesiynol a chryfderau unigol staff yn dda. Mae amcanion staff unigol yn cysylltu'n glir â chynlluniau portffolio.

Mae swyddogion yn dangos ymrwymiad cryf i'w dysgu proffesiynol eu hunain, gan ddiweddaru eu gwybodaeth a'u medrau'n rheolaidd. Gwnânt hyn o fewn eu meysydd cyfrifoldeb eu hunain trwy amrywiaeth o weithgareddau tra ystyriol. Mae hyn yn sicrhau bod gan staff y medrau i ymgymryd â'u rolau proffesiynol.

Mae gwasanaethau o fewn yr awdurdod yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gyflawni eu dyletswyddau addysg, trwy ddefnyddio gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau yn effeithiol. Mae gan yr awdurdod berthynas waith dda â phartneriaid allanol, fel y coleg addysg bellach lleol, sefydliadau lleol y sector gwirfoddol a GwE. Mae swyddogion hefyd yn ymgysylltu'n dda ag ystod eang o rwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol, gan eu galluogi i gyfnewid gwybodaeth yn effeithiol, a dysgu oddi wrth gydweithwyr sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol eraill.

Mae perthynas yr awdurdod â'r ffederasiynau penaethiaid cynradd ac uwchradd wedi hen ennill ei phlwyf. Mae'r prif weithredwr, y prif swyddog addysg, uwch swyddogion eraill a'r aelod cabinet dros addysg ac ieuenctid, yn cyfarfod â'r ffederasiynau penaethiaid yn rheolaidd. Mae hyn yn galluogi'r awdurdod i rannu ei gynlluniau â phenaethiaid, ac o ganlyniad, mae safbwyntiau penaethiaid yn cyfrannu'n uniongyrchol at gynllunio, ac mae ysgolion yn rhan annatod o'r broses gwneud penderfyniadau.

Mae gan yr awdurdod berthynas waith gref gyda'r consortiwm rhanbarthol, ac mae'n cyfrannu'n dda at ei arferion rheoli, llywodraethu a chraffu. Mae'r awdurdod lleol a GwE yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd at ddibenion gweithredol. Mae hyn yn creu dealltwriaeth ar y cyd o berfformiad ysgolion, ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth o ran pecynnau cymorth teilwredig yn briodol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae adroddiadau i'r pwyllgor cabinet a chraffu wedi'u hamlinellu'n dda, ac yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i helpu aelodau etholedig i ddeall y materion allweddol sy'n cael eu hadolygu. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, ni chaiff gwybodaeth am berfformiad a'r goblygiadau allweddol sy'n deillio o hyn, eu dadansoddi'n ddigon clir i helpu aelodau etholedig i ganolbwyntio ar y meysydd pwysicaf i'w gwella.

Adolygwyd trefniadau craffu'r awdurdod gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ddiweddar. Daethant i'r casgliad fod craffu yn cael ei gynnal yn dda ond bod angen ei addasu i fodloni heriau yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Addysg a Phobl Ifanc yn mynd ati i wneud ei waith mewn amrywiaeth o ffyrdd, yn gyffredinol trwy'r cyfarfod pwyllgor traddodiadol, ond hefyd drwy weithdai caeedig, grwpiau gorchwyl a gorffen achlysurol, ac aelodau o'r pwyllgor craffu yn mynychu cyfarfodydd adolygu perfformiad ysgolion gydag ysgolion penodol. Mae'r rhaglen waith Craffu yn rhagweithiol ac yn cwmpasu ystod eang o faterion priodol.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol yn amlinellu ei ymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg a chynyddu niferoedd y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ar draws pob sector. Mae'r strategaeth wedi ymateb i angen nodedig i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardaloedd Yr Wyddgrug, Y Fflint a Bwcle. Mae Tîm y Blynyddoedd Cynnar a'r Tîm ymgynghorol y Gymraeg yn darparu cymorth teilwredig effeithiol i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion o oedran cynnar iawn.

Mae awdurdod lleol Sir y Fflint yn cyflawni ei ddyletswyddau ar gyfer diogelu mewn addysg yn dda. Rhoddir blaenoriaeth uchel o fewn yr awdurdod i amddiffyn a diogelu plant. Mae'r awdurdod lleol yn darparu hyfforddiant a chymorth perthnasol i ddarparwyr addysg, sy'n helpu pob un o'r staff i wybod a deall eu cyfrifoldebau diogelu, gan gynnwys y rheiny ar gyfer atal radicaleiddio. Caiff gweithdrefnau recriwtio diogel eu rheoli'n dda gan y tîm adnoddau dynol, ac mae gweithdrefnau cyson a llym ar waith ar gyfer delio ag unrhyw honiadau yn erbyn staff.

Mae'r Grŵp Diogelu ar draws gwasanaethau yn dechrau dylanwadu'n gadarnhaol ar waith ysgolion arloesi Sir y Fflint, sy'n datblygu agwedd iechyd a lles y cwricwlwm newydd. Er enghraifft, maent wedi darparu adnoddau defnyddiol ar gyfer ysgolion i'w cynorthwyo i adnabod achosion o radicaleiddio, achosion posibl o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant a pherthnasoedd afiach. Yn ychwanegol, maent wedi darparu deunyddiau defnyddiol i gefnogi'r Wythnos Ddiogelu Genedlaethol, fel gwersi enghreifftiol ar linellau cyffuriau.

Mae'r awdurdod yn cynllunio ei gyllidebau blynyddol yn ofalus ac yn unol â'i flaenoriaethau. Mae'r portffolio Addysg ac Ieuenctid wedi gwneud cryn arbedion cyllidebol yn y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r awdurdod wedi blaenoriaethu amddiffyn cyllidebau dirprwyedig ysgolion. Mae'r cyllid a ddirprwyir i ysgolion wedi cynyddu o gymharu ag awdurdodau eraill, ac mae ond fymryn islaw'r cyfartaledd erbyn hyn.

Mae swyddogion ac aelodau etholedig yn monitro lefelau gwariant yn fanwl bob mis. Caiff bron pob un o gyllidebau annirprwyedig, y mae'r gwasanaeth addysg yn gyfrifol amdanynt, eu rheoli'n effeithiol, ond mae'r pwysau sylweddol a chylchol ar y gyllideb lleoliadau y tu allan i'r sir, sy'n cael ei harwain yn ôl y galw, yn risg ariannol sylweddol.

Mae swyddogion yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl briodol ynghylch pam y caiff rhai dysgwyr eu lleoli mewn darpariaeth addysgol y tu allan i'r sir, a faint y mae'r ddarpariaeth honno yn ei chostio. Megis dechrau y mae'r cynllunio i ystyried darpariaeth leol sy'n fwy cost effeithiol o bosibl ar gyfer rhai categorïau dysgwyr. Mae'r Hwb Cymorth Cynnar yn enghraifft dda o gydweithio effeithiol rhwng gwahanol wasanaethau'r cyngor a phartneriaid eraill mewn ymgais i atal anghenion dysgwyr a'u teuluoedd rhag dwysáu, ond mae'n rhy gynnar i werthuso effeithiolrwydd yr Hwb o ran cynorthwyo teuluoedd, ac felly lleihau ac osgoi costau yn y dyfodol.

Mae uwch swyddogion y cyngor yn darparu cymorth effeithiol i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion, sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Mae'r Fforwm yn gwneud cyfraniad gwerthfawr o ran datblygu ac addasu'r fformiwla a ddefnyddir i ddirprwyo cyllid i ysgolion, ac o ran gwella ansawdd y cytundebau sy'n llywodraethu gwerthu gwasanaethau gan yr awdurdod i'w ysgolion. Er gwaetha'r addasiadau i'r fformiwla, fodd bynnag, cariodd y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd ddiffygion ymlaen i flwyddyn ariannol 2019-20. Mae'r awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i'r ysgolion hynny sy'n bwriadu gosod diffyg yn eu cyllidebau, lunio cynllun adfer cytûn, a chael cymeradwyaeth uwch swyddogion cyn iddynt benodi staff. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa ariannol mewn nifer fach o ysgolion wedi parhau i ddirywio flwyddyn ar ôl blwyddyn yn hwy nag uchafswm y cyfnod o bum mlynedd a nodwyd yng nghynllun yr awdurdod ar gyfer ariannu ysgolion.

Mae'r cyngor yn gwneud defnydd da o amrywiaeth o ffynonellau cyllid cyfalaf i wella ansawdd ac effeithlonrwydd ei ystâd ysgolion. Mae'r broses gwneud penderfyniadau sy'n amgylchynu ad-drefnu ysgolion yn drylwyr a chynhwysfawr, ac mae'r arfer ddilynol o reoli prosiectau yn gadarn o ran sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflwyno'n brydlon, ac yn unol â'r gyllideb. Trwy gyfuniad tra ystyriol o gau ysgolion, adeiladu ysgolion newydd ac ailfodelu ysgolion, mae'r ôl-groniad o ran gwaith cynnal a chadw wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Ystyrir bod bron i 90% o ysgolion mewn cyflwr boddhaol, o leiaf. Mae ad-drefnu ysgolion wedi lleihau capasiti dros ben mewn ysgolion hefyd, er bod cyfran y lleoedd dros ben yn parhau i fod uwchlaw'r targed cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cynigion uchelgeisiol yr awdurdod, sy'n werth £85 miliwn ar gyfer ail gam rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif sydd, yn amodol ar fforddiadwyedd, â'r potensial i gynnal y cynnydd a wnaed yn ystod y cam cyntaf.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/08/2019